Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Hysbysiad Preifatrwydd - Llywodraeth Cymru
Cynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory

Yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR y DU) y DU a ddaeth i rym ar 25 Mai 2018, mae'r hysbysiad hwn yn nodi'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud â gwybodaeth y mae'n ei derbyn sy'n ymwneud â Chynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory.

Bydd yr wybodaeth yn yr hysbysiad hwn yn cael ei hadolygu'n rheolaidd i gynnwys unrhyw newidiadau pellach y cawn wybod amdanynt gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

1. Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu ystod eang o gynlluniau grant er mwyn helpu i weithredu ein polisïau a chreu Cymru sy'n decach ac yn fwy ffyniannus. Bydd Llywodraeth Cymru yn cael gwybodaeth am yr unigolion sy'n cymryd rhan yng **Nghynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory yng Nghymru**.

Ar ôl cael yr wybodaeth rydych yn ei rhoi ar y ffurflen gais, mae Llywodraeth Cymru yn rheoli'r data.

2. Pa wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chael?

Mae'r wybodaeth bersonol y byddwn yn ei chasglu a'i chadw yn cynnwys:

✓ Rhywfaint o wybodaeth bersonol amdanoch chi, megis:
- Enw
- Cyfeiriad
- Cyfeiriad e-bost
- Dyddiad geni
- Manylion banc
- Cwrs AGA a'i ddarparwr
- Rhif Myfyriwr
- Cyfeirnod athro

3. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda'ch gwybodaeth?

Llywodraeth Cymru fydd y 'rheolwr data' ar gyfer unrhyw ddata personol yr ydych yn eu darparu mewn perthynas â'ch cais am grant/ hawliad neu wrth ofyn am gyllid grant.

Fel rhan o'i chylch gwaith fel rheolwr data, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth a gaiff at y dibenion isod. Mae'r prosesau hyn yn angenrheidiol ac yn

unol ag Erthygl 6(1)(e) GDPR y DU lle mae angen prosesu gwybodaeth er mwyn cyflawni gorchwyl er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod swyddogol a roddwyd i reolwr y data:-

a. At ddibenion y Cynllun Cymhelliant:-

- ✓ I lywio a gwella polisïau mewn perthynas â rhaglenni ôl-raddedig AGA uwchradd a'r Gymraeg, ac i ddylanwadu arnynt
- ✓ I helpu i fonitro cyllid a'i dargedu'n effeithiol.

b. At ddibenion cyllido (er mwyn sicrhau eich bod yn gymwys i gael y Grant Hyfforddi a'n bod yn cael gwybodaeth gywir er mwyn gwneud taliad):-

- ✓ Bydd y data uchod yn cael eu defnyddio i asesu a ydych yn gymwys i gael cyllid.
- ✓ Bydd y data'n cael eu defnyddio i gynnal gwiriadau at berwyl atal twyll a gwyngalchu arian.
- ✓ Bydd y data'n cael eu defnyddio i wirio eich hunaniaeth.
- ✓ Bydd y data'n cael eu defnyddio i helpu i fonitro cyllid a'i dargedu'n effeithiol.

4. Â phwy y mae Llywodraeth Cymru yn rhannu eich gwybodaeth?

Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth amdanoch a gedwir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei rhannu os yw'r gyfraith yn caniatáu hynny neu'n cael ei rhannu â chyflenwr trydydd parti sydd wedi'i gontractio i weithredu ar ran Llywodraeth Cymru.

Yr Unigolion neu'r Sefydliadau y bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â nhw:

- ✓ Asiantaethau atal twyll
- ✓ Cyngor y Gweithlu Addysg

Ni fydd Llywodraeth Cymru ond yn darparu data at ddibenion penodol ac am gyfnod cyfyngedig. Rhaid i'r sefydliad gadarnhau ei fod wedi dinistrio'r data ar ôl y cyfnod cyfyngedig hwnnw.

5. Am ba mor hir y byddwn yn cadw'r data hyn?

Os yw'ch cais yn llwyddiannus, bydd Llywodraeth Cymru yn cadw eich gwybodaeth am hyd at 7 mlynedd ar ôl y dyddiad y bodlonwyd yr holl amodau sy'n berthnasol i'r grant ac y cafodd yr holl daliadau eu gwneud. Ar ôl y cyfnod hwnnw, bydd copïau caled o ddata'n cael eu torri'n ddarnau mân a chaiff data electronig eu dileu.

6. Eich hawliau o dan GDPR y DU

Mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- ✓ Gweld y data personol y mae Llywodraeth Cymru yn eu prosesu amdanoch chi;

- ✓ Ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gywiro unrhyw wallau yn y data hynny;
- ✓ Gwrthod (o dan rai amgylchiadau) i'r data gael eu prosesu am resymau sy'n ymwneud â'ch sefyllfa benodol chi;
- ✓ Cyfyngu'r prosesu (o dan rai amgylchiadau);
- ✓ Cyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael gwybod mwy am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac at ba ddiben, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan GDPR, cysylltwch â Llywodraeth Cymru. Fel arall, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dyma'r manylion cyswllt:

	Swyddog Addysg Gychwynnol i Athrawon	***Swyddog Diogelu Data:***	***Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth***
Cyfeiriad:	Llywodraeth Cymru Parc Cathays CAERDYDD CF10 3NQ	Llywodraeth Cymru Parc Cathays CAERDYDD, CF10 3NQ	Wycliffe House Water Lane Wilmslow Swydd Gaer / Cheshire SK9 5AF
Rhif ffôn:	0300 0604400	0300 0604400	029 2067 8400 (llinell gymorth Cymru) neu 0303 123 1113 (llinell gymorth y DU)
Cyfeiriad e-bost / Gwefan:	ITEIncentives@llyw.cymru	Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru	www.ico.gov.uk